Ysbyty Gwynedd

# Adran Achosion Brys

Nadolig Llawen!

Newyddlen Rhagfyr 2017

## Yn dod â'ch diweddariad misol ar y gwaith gwella yn Adran Achosion Brys Ysbyty Gwynedd



## Yn y rhifyn hwn:


Adroddiad rheolwr y safle

Ymweliad Nadolig gan RAF y Fali

Mabli fach yn diolch i'n staff Adran Achosion Brys!

Cwrdd â'r Tîm Adran Achosion Brys: Dr Salah Elghenzai, Meddyg Ymgynghorol Gofal yr Henoed ac Arbenigwr Strôc






# Rob Perry, ein Harweinydd Adran Achosion Brys yn siarad â'r Daily Post



Fe rannodd Rob Perry, Meddyg Ymgynghorol ei brofiadau o weithio yn yr Adran Achosion Brys pan gyfarfu â Kelly Williams, newyddiadurwr y Daily Post y mis hwn.
Fe siaradodd hefyd am sut fydd staff a chleifion yn elwa o'r gwaith gwella yn yr Adran Achosion Brys.
Bydd stori Rob yn ymddangos yng Nghyfres 'Lifesaver' y Daily Post, sy'n cydnabod arwyr sy'n arbed bywydau yn ein cymunedau- darllenwch ei stori ar 7 Ionawr!

# Mabli fach yn diolch i'n tîm Adran Achosion Brys am ei gofal!



Mae Mabli sy'n ddwy oed eisiau diolch i'r tîm yn Adran Achosion Brys Ysbyty Gwynedd am y gofal y gwnaethant ei roi iddi ar ôl iddi syrthio. Aethpwyd â'r plentyn bach i'r Adran Achosion Brys, lle sylwyd ei bod wedi torri ei ffêr.
Dywedodd Kirsty Thomson, ei mam: "Roedd y gofal a gafodd Mabli yn Adran Achosion Brys yn Ysbyty Gwynedd yn wych- er bod Mabli mewn poen, fe wnaeth y staff eu gorau i'w gwneud mor gyfforddus â phosibl.
"Rydym yn hynod o lwcus i gael staff mor ffantastig yn ein hysbytai, a hoffwn ddiolch iddynt am ddarparu gofal mor wych i fy merch.
"Fe ddywedodd ei brawd sy'n bedair oed ei fod wedi mwynhau ymweld â'r Adran Achosion Brys gymaint, y byddai'n hoffi mynd yno eto yn fuan!"

## *Drosodd i chi...*


Rydym bob amser yn falch o gael adborth am Adran Achosion Brys Ysbyty Gwynedd a'n gwasanaethau. Dyma enghraifft o rai o'r pethau y mae unigolion wedi dweud wrthym.

"Dim ond eisiau dweud diolch yn fawr i bawb yn Adran Achosion Brys Ysbyty Gwynedd a wnaeth fy helpu ar ôl fy namwain, roedd pawb yn anhygoel. Roedd ansawdd y gofal a'r driniaeth y cefais wirioneddol gyda'r gorau yn y byd!"

"Diolch i staff yn Adran Achosion Brys Ysbyty Gwynedd, a roddodd driniaeth mor wych i fy ŵyr pump oed".

"Ar ôl bod yn Adran Achosion Brys Ysbyty Gwynedd gyda ffrind, mae gennyf ymdeimlad newydd o werthfawrogiad o'n staff y GIG gwych a gweithgar! Diolch 'BIPBC, hiroes i'n GIG!"

# Cwrdd â Salah Elghenzai, Meddyg Ymgynghorol Gofal yr Henoed ac Arbenigwr Strôc




Dyma Dr Elghenzai a ddechreuodd weithio yn Ysbyty Gwynedd yn 2002, ac sy'n gweithio fel Meddyg Ymgynghorol yr Henoed ac Arbenigwr Strôc ar Ward Prysor.
Mae rhan o'i rôl yn cynnwys gofalu am bob oedolyn sy'n dod i'r Adran Achosion Brys gyda symptomau strôc.
Mae Dr Elghenzai hefyd yn ymweld ag Ysbyty Bryn Beryl ym Mhwllheli ac Ysbyty Eryri yng Nghaernarfon i ofalu am ei gleifion sydd wedi cael strôc.
Mae'r Meddyg Ymgynghorol Gofal yr Henoed yn credu y bydd y cleifion hŷn hynny sy'n ymweld â'r Adran Achosion Brys yn elwa o'r gwaith gwella.
Dywedodd: "Nid gwella'r amgylchedd ar gyfer asesu unigolion hŷn bregus yn unig fydd y gwaith, ond bydd hefyd yn rhoi cyfle unigryw i ni ail-siapio ac ail drefnu'r arwynebau ar gyfer yr holl unigolion hyn.
"Roedd hi'n newyddion gwych clywed y newyddion fod y gwaith gwella wedi dechrau, gan nad yw'r adran erioed wedi cael unrhyw waith adnewyddu ac mae wedi dyddio'n ofnadwy.
"Gan fod y boblogaeth yn mynd yn hŷn yn awr, mae'n bwysig fod gennym Adran Achosion Brys sy'n bodloni'r safonau, rydym angen darparu ar gyfer y rhai sy'n dod atom am eu gofal.
"Rwy'n edrych ymlaen at weld y cyfnod cyntaf o'r gwaith yn cael ei gwblhau ddechrau'r flwyddyn nesaf!"

# RAF Fali yn ymweld ag Adran Achosion Brys Ysbyty Gwynedd!





Diolch i RAF Fali a ddaeth i rannu ysbryd yr ŵyl ar ein wardiau yn Ysbyty Gwynedd ac yn ein Hadran Achosion Brys!

# Adroddiad Iwan Lewis, rheolwr y safle

Mae mis Rhagfyr wedi bod yn fis prysur iawn i ni ar y safle, ac rydym yn awr yn edrych ymlaen at gwblhau cyfnod 1 o'r prosiect ar ôl y Nadolig.
Mae tu blaen yr adeilad wedi cael ei gwblhau, mae'r canopi dur wedi cael ei godi, ac mae'r gwaith i adeiladu'r waliau mewnol wedi dechrau.
Mae gwasanaethau mecanyddol a thrydanol yn parhau ar lefel uchel yn arwain at y Nadolig.
Bydd hyn yn gadael chwe wythnos ar ôl cyfnod y Nadolig i ni gwblhau'r gorffeniadau mewnol a throsglwyddo cyfnod 1.
Hoffa bawb o Interserve ddymuno Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i chi gyd!



Interserve
Ingenuity at work





